


Y STORI HYD YMA

DAU DDEGAWD O WEDDNEWID CREADIGRWYDD YNG NGHYMRU

EBRILL 2023 – MAWRTH 2024

CANOLFAN MILENIWM CYMRU

Rhif elusen: 1060458

BLWYDDYN ARALL O BROFIADAU GWEDDNEWIDIOL

Rhagair gan Graeme Farrow, Prif Swyddog Creadigol a Chynnwys

Eleni cafodd dros 1.2m o bobl brofiad o gelfyddydau o'r radd flaenaf o dan ein to, o'r goreuon ym maes drag, comedi a bwrlésg yn ein lleoliad newydd Cabaret i operâu a sioeau cerdd rhyngwladol yn ein theatr eiconig, Theatr Donald Gordon.



Mae ein lleoliad celfyddydau digidol Bocs wedi mynd â chynulleidfaoedd ar deithiau unigryw ac annisgwyl, tra bod y rhai sy'n gwirioni ar dalent cartref Cymru wedi'u croesawu i'n llwyfannau a'r tu hwnt i fwynhau ein profiadau a'n cynyrchiadau ni ein hunain. Fe wnaeth ein sioe gerdd Gymraeg, Branwen: Dadeni, cyd-gynhyrchiad teithiol gyda Frân Wen, swyno 8,000 o bobl ledled y wlad, ac fe wnaeth ein gŵyl gelfyddydol ryngwladol Llais fywiogi'r adeilad gyda cherddoriaeth, trafodaethau a dathliadau diwylliannol unigryw.

Fel bob amser, mae'r cymunedau, y partneriaid creadigol a'r cwmnïau preswyl diwylliannol sy'n galw Canolfan Mileniwm Cymru'n gartref wedi dod ag egni i'n rhaglen gydag arddangosfeydd cydweithredol, o Diwali, Carnifal Butetown a gosodweithiau celf tymhorol i'n digwyddiad Iftar cymunedol cyntaf.

Y tu ôl i'r llenni, rydyn ni'n parhau i godi arian ar gyfer gofodau parhaol o dan arweiniad pobl ifanc fel rhan o Platfform, a fydd yn cynnwys stiwdios recordio newydd, labordai digidol a mannau ymarfer a pherfformio i ddatblygu ein rhaglen unigryw o hyfforddiant sgiliau diwydiant yn rhad ac am ddim ar gyfer doniau'r dyfodol.

Ein hugeinfed flwyddyn, sef 2024, fydd ein blwyddyn fwyaf allweddol eto. Wrth i'n gofodau ehangu byddwn yn buddsoddi ymhellach mewn adrodd straeon digidol ymdrochol, ynghyd â rhagor o gapasiti ar gyfer datblygu ac ymarfer gwaith newydd. Bydd cynulleidfaoedd yn profi perfformiadau arloesol drwy gydol y flwyddyn, o Nye, ein cyd-gynhyrchiad mawr gyda'r National Theatre, i'r ffenomenon diwylliannol Hamilton, fydd yn gwneud ei ymddangosiad cyntaf yng Nghymru ar yr union ddyddiad yr agorwyd ein drysau ddau ddegawd yn ôl.

Fel elusen sy'n gweithredu yng nghyd-destun cynnydd mewn costau a ffynonellau incwm cyfyngedig, dim ond cefnogaeth ein timau, ein cynulleidfaoedd, ein cyllidwyr, ein partneriaid, ein hymwelwyr a'n gwirfoddolwyr sy'n gwneud yr ehangder yma o weithgarwch yn bosib. Diolch am ein helpu i gynnal creadigrwydd ac ysbrydoli'r genedl am yr ugain mlynedd nesaf a'r tu hwnt.



Dathliadau blynyddol Diwali



LEMFRECK yn Llais



Michael Sheen a'r cast yn ymarfer Nye



Battlescar: Punk was Invented by Girls (profiad ymdrochol)

CODI DYHEADAU

Rydyn ni'n cefnogi pobl ifanc Cymru i ehangu eu hyder creadigol, eu sgiliau, eu rhwydweithiau cymdeithasol a'u llwybrau gyrfa drwy brofiadau dysgu cydweithredol. Eleni mae dros 4,100 wedi cael eu hysbrydoli yma ac yn ein chwaer-leoliadau yng Nghymru, ac mae dros 30 wedi ennill cyfleoedd a gwaith gyda thâl.



Perfformiadau Hard Côr ar ein llwyfan cyhoeddus, Glanfa



Sesiynau blasu drymio Affricanaidd

"Mae Canolfan Mileniwm Cymru wedi rhoi llwyth o weithdai hyfforddi i fi a phopeth fydden i angen i allu mynd ymlaen i greu gyrfa i fi fy hunan."

Owain Watkins, un o saith prentis technegol ifanc, sydd gyda'i gilydd wedi cael 11,700+ o oriau o brofiad theatr dechnegol o safon fyd-eang gyda ni a chwaer-leoliadau yn genedlaethol, gyda thâl.







"Dw i wedi dysgu sut i drafod gydag artistiaid, beth i'w dderbyn gan hyrwyddwyr fel artist, a sut i frandio digwyddiad... Y foment sy'n sefyll allan oedd awgrymu artistiaid a'u bod nhw wedyn yn cael eu harchebu."

Un o 600 o bobl ifanc greadigol a gafodd eu grymuso i guradu digwyddiadau ac arddangos eu doniau o fewn yr adeilad, yn amrywio o brosiectau dwys fel y grŵp lleisiol Hard Côr, yr arddangosiad cerddorol newydd lockoff @ Llais, preswyliadau artistiaid a mwy.

"Dw i wedi dysgu am dechnegau cyfweliad, y cwestiynau i'w holi i fy nghymeriad, sut i ddal fy hunan yn yr ystafell glyweliad a sut i fod yn llai hunanymwybodol mewn amgylchedd theatr."

Un o'r 130+ o raddedigion Llais Creadigol a hyfforddwyd mewn sgiliau radio, cerddoriaeth a'r celfyddydau gweledol a digidol. Dywedodd y mwyafrif helaeth fod eu hyder creadigol wedi cynyddu dros y 12 awr o gyrsiau hyfforddi dwys ar gyfer y diwydiant.

DAN SYLW:
MEITHRIN DONIAU IFANC

"Mae cael cyfleoedd gyda thâl i bobl ifanc yng Nghanolfan Mileniwm Cymru yn beth arbennig iawn. O'n i ddim wedi sylweddoli faint o annibyniaeth sydd ganddon ni yn Radio Platfform tan i bobl eraill wneud y pwynt nad yw swydd fel hyn yn beth arferol iawn i rywun fy oedran i... Mae Canolfan Mileniwm Cymru yn sicr yn gosod bar uchel o ran beth fydda i'n ei ddisgwyl gan weithleoedd eraill."

Mae Agathe Dijoud yn un o 11 sydd wedi bod yn gweithio mewn swyddi gyda thâl yn Radio Platfform a neilltuwyd i bobl ifanc eleni. Maen nhw wedi cael llawer o fentora wrth gefnogi'r orsaf i greu 1,400+ o ddarllediadau o dan arweiniad pobl ifanc. Mae pob un o'r 49 o bobl ifanc a gwblhaodd ein hyfforddiant radio achrededig am ddim yng Nghaerdydd neu Borth yn gymwys i gynhyrchu sioeau fel aelod ac i wneud cais am y swyddi yma.





Ein grŵp Theatr Ieuenctid yn perfformio ar y prif lwyfan

CANOLFAN CELFYDDYDAU PERFFORMIO SY'N ARWAIN Y BYD

Fel cartref creadigol i bawb, rydyn ni'n ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn arwain y byd ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud, gan sicrhau'r effaith fwyaf posib i Gymru. Mae profiadau arloesol yn rhoi mynediad i ymwelwyr at dechnoleg sydd wedi ennill gwobrau a theatr sy'n torri tir newydd, tra bod ein harferion cynaliadwyedd blaengar yn diogelu ymgysylltiad diwylliannol ar gyfer y cenedlaethau a ddaw.

"Mae'r ffyrdd newydd cynaliadwy rydyn ni'n rhedeg ein hadeilad, ein gweithrediadau a'n cynyrchiadau yn golygu ein bod yn cymryd camau go iawn i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd."

Steve Morris, ein pennaeth gweithrediadau lleoliad, yn trafod y strategaethau sy'n ein helpu i gyrraedd sefyllfa carbon niwtral, gan gynnwys cynrychioli theatrau Cymru wrth weithredu menter newydd Llyfr Gwyrdd y Theatr a chynhyrchu ynni drwy'r paneli solar sydd gennym ar y to ac sydd wedi ennill gwobrau.

"Adeilad hyfryd. Profiad hyfryd. Staff hyfryd. Amser mor wych, alla i ddim canmol digon."

Un o 402,000+ o aelodau cynulleidfa Theatr Donald Gordon i brofi 300+ o berfformiadau cerddorol, opera, dawns, theatr a chomedi o safon fyd-eang ar ein llwyfan mwyaf.



Goliath
(profiad realiti rhithwir)



Ymarferion
Branwen: Dadeni



Theatr Donald Gordon


DAN SYLW:
BUDDSODDI MEWN ADRODD STRAEON DIGIDOL

"Fy nhro cyntaf i ddefnyddio penset rhithwir, a waw, dyna brofiad!!"

Un o 26,500+ o bobl a archebodd le yn ein lleoliad arddangos digidol, Bocs. Mae'n unigryw yng nghanolfannau celfyddydol gwledydd Prydain, yn cyflwyno profiadau digidol ymdrochol wedi'u creu ganddon ni ac arweinwyr eraill o'r diwydiant ledled y byd, a hynny yn rhad ac am ddim.

Mae'r gofod wedi dangos bod galw mawr am ffurfiau newydd arloesol ar adrodd straeon, gyda bron i hanner y cynulleidfaoedd yn ymweld yn benodol er mwyn dod i Bocs, a 93% yn dweud eu bod yn dymuno gweld mwy o brofiadau fel hyn yn cael eu cynnig yng Nghanolfan Mileniwm Cymru yn y dyfodol.

Wrth i ni edrych ymlaen, rydyn ni wrth ein boddau ein bod yn bartner allweddol yn Celfyddydau Ymdrochol. Yn y rhaglen tair blynedd yma, byddwn yn gweithio o fewn consortiwm o arweinwyr y diwydiant yng ngwledydd Prydain er mwyn cryfhau a dyrchafu sector celfyddydau digidol y genedl.



Ein paneli solar ar y to

7.5 ERW O GREADIGRWYDD

Mae'r wyth partner a chwmni preswyl diwylliannol sydd gennym yn helpu i wneud Canolfan Mileniwm Cymru yn gampws creadigol i'r genedl.

HYGYRCH I BAWB

Gan weithio gyda phartneriaid cymunedol, cenedlaethol a rhyngwladol a'r wyth cwmni preswyl diwylliannol, rydyn ni'n hyrwyddo lleisiau cymunedau niferus Cymru drwy greu cyd-ddathliadau a chyd-brofiadau llawen i bawb yn ein hadeilad cyhoeddus.



Parêd y llusernau



Ein côr gwirfoddolwyr



Padelli dur Pantasia yng ngŵyl Llais

❝Heb y prosiect yma, fe fyddwn i'n dal i fod yn cuddio, yn gorfeddwl ac yn poeni, a nawr mae gen i rywbeth i edrych ymlaen ato!❞

Aelod o'r gerddorfa padelli dur gyntaf yng Nghaerdydd i gael ei harwain gan y gymuned, sef dim ond un o 140+ o brofiadau a dathliadau diwylliannol a rannwyd gyda 7,300+ o bobl yn yr adeilad.

❝O'n i mor ddiolchgar am gael cynnig tocynnau am bris gostyngol, a fel arall fydden i ddim wedi gallu dod. Ges i fy syfrdanu gan y dewis o seddi a'r lleoliad, ac roedd y sioe yn anhygoel.❞

Un o'r 5,000+ o bobl a gafodd docynnau 'talwch beth y gallwch', sy'n rhoi cyfle i grwpiau cymunedol weld perfformiadau o safon fyd-eang ar draws ein gofodau.

❝Y peth dw i'n ei fwynhau fwyaf yw bod yn rhan o'r tîm, cael cwrdd â phobl ddiddorol a gweld llawenydd cynulleidfaoedd wrth iddyn nhw adael ar ôl sioe, yn dal i ganu'r caneuon.❞

Un o 270+ o wirfoddolwyr sy'n rhannu llawenydd theatr fyw gyda'n cynulleidfaoedd, yn ogystal â chyfanswm o 22,200+ o oriau o'u hamser, eu sgiliau a'u hangerdd am y celfyddydau.

DAN SYLW: IFTAR CYMUNEDOL

❝Dw i erioed wedi cael y math yma o brofiad mewn gweithle o'r blaen. Mae cael derbyniad llwyr i fy nghrefydd, a chael bod yma gyda phobl eraill o'r un ethnigrwydd, y gymuned leol a phobl nad ydyn nhw'n Fwslimiaid, i gyd gyda'i gilydd mewn un adeilad, yn arbennig... mae'n arbennig.❞

Bablu Shikdar, ein swyddog allgymorth yn Platfform, yn myfyrio ar ei brofiad o Iftar cyntaf erioed Canolfan Mileniwm Cymru ym mis Ebrill 2023. Gan gydweithio â Now In A Minute Media, Boss and Brew a'n cyfeillion a'n cydweithwyr Mwslimaidd, roedd yn anrhydedd i ni gael cynnal y digwyddiad arbennig yma yn ystod Ramadan pan ymunodd dros 350 o bobl â ni o gymunedau lleol, yn Fwslimiaid ac eraill, i wrando, dysgu a thorri'r ympryd gyda'i gilydd.





Ein staff yn Pride Caerdydd 2023



I BAWB

Rydyn ni'n Gyflogwr Cyflog Byw a Hyderus o ran Anabledd, sydd wedi ymrwymo i amrywiaeth a chynhwysiant yn ein gweithle. Chwiliwch am 'Cydraddoldeb ac Amrywiaeth' ar ein gwefan i gael gwybod mwy.

GWAITH ARLOESOL I ARDDANGOS CYMRU

Eleni mae 35,800 o bobl wedi profi pedwar o gynyrchiadau, cyd-gynyrchiadau a phrofiadau gan Ganolfan Mileniwm Cymru, ac fe fuon ni'n gweithio ar bump arall. Rydyn ni wedi cefnogi artistiaid sy'n dod i'r amlwg i ddatblygu ac arddangos gwaith arloesol o Gymru ac i archwilio'u hymarfer drwy gael mynediad at arweiniad a gofod am ddim.



Somali Tales of Tiger Bay



The First XXXMas: A Very Naughtytivity



Es & Flo

❝ Mae fy ngwraig a finnau wedi gweld tipyn o gynyrchiadau mawr eleni – does dim un ohonyn nhw wedi gwneud i ni chwerthin, wedi'n gadael ni'n syfrdan ac wedi ennyn emosiynau fel gwnaeth hon.❞

Canmoliaeth i'n sioe Nadolig amgen am ddrama'r geni, The First XXXMas: A Very Naughtytivity gan un o 2,800+ o aelodau'r gynulleidfa a beirniaid y wasg.

❝ Fel artist, mae cael gweithio yng Nghanolfan Mileniwm Cymru yn rhoi gwefr achos rydych chi'n rhan o gymuned enfawr o greadigrwydd.❞

Jennifer Lunn, yr awdur llwyddiannus oedd y tu ôl i'n cynhyrchiad Es & Flo, stori am gariad lesbiaidd hŷn a ddenodd 5,800+ o aelodau cynulleidfa rhwng Caerdydd a'r Kiln Theatre, Llundain.

❝ Fe ddysgais i lawer am ddiwylliant Somali yma yng Nghaerdydd.❞

Aelod o gynulleidfa Somali Tales of Tiger Bay, un o 19,000+ o bobl gafodd brofi perfformiadau, trafodaethau a gweithdai ysbrydoledig yn ystod ein gŵyl gelfyddydol ryngwladol Llais.

DAN SYLW: HYRWYDDO CYNYRCHIADAU CYMRAEG

❝Y darn mwya epig o theatr Gymraeg welais i erioed, ar yr un lefel â sioe yn y West End.❞

Cylchgrawn yr IWA, The Welsh Agenda, am Branwen: Dadeni

Fe fuon ni'n arddangos gwaith adrodd straeon a doniau anhygoel Cymru gyda'n sioe gerdd Gymraeg fwyaf eto, sef Branwen: Dadeni. Cyd-gynhyrchiad gyda Frân Wen oedd y gwaith epig yma ar gyfer prif lwyfan, gyda mwyafrif y cast yn siarad Cymraeg a lleisiau menywod ifanc yn ganolog. Teithiodd y cynhyrchiad yn genedlaethol gan werthu bron pob tocyn a denu 8,000 o gynulleidfa rhwng Caerdydd, Bangor ac Aberystwyth.

❝ Mae ein Breninesau wedi dysgu teithio'n annibynnol, gwneud penderfyniadau am eu bywydau o fewn y prosiect a'r tu hwnt, a chael clust i'w lleisiau ym myd y celfyddydau yng Nghymru. Rydyn ni'n falch o gael galw Canolfan Mileniwm Cymru'n gartref i ni.❞

House of Deviant, yr unig griw drag gydag anableddau dysgu yng Nghymru, ac un o 40+ o grwpiau creadigol, artistiaid ac ysgolion i gael mynediad at 1,400+ o oriau yn ein gofodau, a hynny am ddim.





Branwen: Dadeni

TANWYDD EIN DYFODOL

Diolch. Dim ond gyda theulu o wirfoddolwyr, aelodau, partneriaid a chefnogwyr sy'n rhannu ein hangerdd am hyrwyddo pobl ifanc, cymunedau ac artistiaid newydd o bob rhan o Gymru mae ein taith uchelgeisiol yn bosib. Fydden ni ddim yn llwyddo hebddoch chi.



Glanfa



Iockoff @ Llais

HOFFECH CHI FOD YN RHAN O'N STORI NI HEFYD?

Cyfrannwch – gall rhodd fach wneud gwahaniaeth mawr.

Gwirfoddolwch – rhannwch eich amser, eich sgiliau a'ch angerdd am y celfyddydau gyda'n teulu o wirfoddolwyr.

Ymaelodwch – mwynhewch ystod o fanteision unigryw i gydnabod eich cefnogaeth hael fel aelod.

Enwch sedd – sicrhewch eich lle yn hanes cyfoethog y theatr.

Dathlwch 20 mlynedd – dewch fymryn yn nes at hud Canolfan Mileniwm Cymru gyda buddion a dathliadau drwy gydol blwyddyn y dathlu.


Gadewch waddol parhaol – rhannwch hud y celfyddydau gyda'r cenedlaethau a ddaw gyda rhodd yn eich ewyllys, a mwynhewch fanteision drwy gydol y flwyddyn fel rhan o'n Cylch Cymynroddion.

Chwaraewch ran annatod – helpwch i ariannu a datblygu'n prosiectau fel rhan o Gylch y Cadeirydd, a mwynhewch brofiadau unigryw, digwyddiadau arbennig a mynediad heb ei debyg at ein cynyrchiadau.

Tyfwch eich brand – diddanwch eich cleientiaid, gwobrwywch staff a mwynhewch fynediad at ddiwylliant a chelfyddydau o safon fyd-eang fel un o'n cefnogwyr corfforaethol.


YMUNWCH A RHOWCH

DADANSODDIAD CYLLID



INCWM 23/24 – CYFANSWM £23,131,000


- **Cyllid craidd Cyngor Celfyddydau Cymru** | **£3,937,000** (17%)
- **Incwm o'n theatrau, caffis, bariau a siop** | **£17,586,000** (76%)
- **Cyfraniadau a rhoddion dyngarol** | **£1,608,000** (7%)



GWARIANT 23/24 – CYFANSWM £24,563,000

- **Costau sy'n gysylltiedig â'n gweithgarwch masnachol** | **£15,250,000** (62%)
- **Gweithgarwch elusennol** | **£1,384,000** (6%)
- **Costau codi arian uniongyrchol** | **£40,000** (0%)
- **Costau rhedeg a chynnal ein hadeilad cyhoeddus eiconig*** **(yn cynnwys dibrisiant ac amorteiddiad)** | **£7,889,000** (32%)

*** WYDDOCH CHI EIN BOD NI'N ADEILAD CYHOEDDUS SYDD AR AGOR 364 DIWRNOD Y FLWYDDYN AC YN CROESAWU HYD AT 1.8 MILIWN O YMWELWYR YN FLYNYDDOL?**



GWARIANT ELUSENNOL 23/24 – CYFANSWM £1,384,000

- **Gweithgarwch Cymunedol** | **£174,000** (13%)
- **Cynyrchiadau Canolfan Mileniwm Cymru** | **£865,000** (62%)
- **Dysgu Creadigol** | **£345,000** (25%)

Datganiadau Ariannol Grŵp Statudol i'w ffeilio yn Nhŷ'r Cwmnïau ym mis Rhagfyr 2024. Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r mil agosaf.

BLAS O'R HYN SYDD I DDOD

Ein cynlluniau ar gyfer 2024/25 a'r tu hwnt



Gwenno yn Llais 2023





Carnifal Butetown

Rydyn ni wrth ein boddau ein bod yn bartner arweiniol Cymru yn rhaglen Celfyddydau Ymdrochol gwledydd Prydain, gan weithio ochr yn ochr â Pervasive Media Studio Watershed, Prifysgol Bryste, Canolfan Nerve Belfast a Derry, a Cryptic yn Glasgow. Gyda'n gilydd, byddwn yn archwilio'r croestoriad rhwng technoleg ymdrochol a gwaith artistig byw ac yn galluogi 200+ o artistiaid, pobl ifanc a chymunedau i archwilio'r posibiliadau yma ac adrodd eu straeon yn y ffyrdd maen nhw'n dymuno, drwy ymchwil, hyfforddiant a chyllid.

Byddwn yn croesawu blwyddyn arall o brofiadau cymunedol, o weithio gyda Chymdeithas Celfyddydau a Diwylliant Butetown i ddatblygu Carnifal Butetown i gyfleoedd cyllidebu cyfranogol a dod â lliw i'n hadeilad drwy gydol y flwyddyn gydag arddangosfeydd a gosodweithiau gan artistiaid lleol.

Bydd ein cynhyrchiad llwyfan arswyd hir-ddisgwyliedig PONTYPOOL yn agor ym mis Hydref 2024, ac mae eisoes ymhlith cynyrchiadau Canolfan Mileniwm Cymru sydd wedi gwerthu gyflymaf. Hefyd, drwy gydweithio â Sŵn a Chyngor Caerdydd, byddwn yn sicrhau bod mwy o sôn am ŵyl Llais yn 2024 nag erioed o'r blaen.



Dehongliad artist o Platfform

GWEDDNEWID CREADIGRWYDD YNG NGHYMRU

Eleni, drwy adnewyddu Copr, sef lolfa'r aelodau, cwblhawyd cam dau o'r newidiadau uchelgeisiol sy'n sicrhau croeso cynhesach i Ganolfan Mileniwm Cymru, sydd hefyd yn cynnwys Cabaret, Bocs a Ffwrnais.

Nesaf, byddwn ni'n creu gofodau parhaol o dan arweiniad pobl ifanc fel rhan o Platfform, gan alluogi 10,000+ o bobl ifanc greadigol i gyd-ddatblygu a chael mynediad at ein rhaglenni. Bydd y gofodau'n cynnwys stiwdios recordio, labordai digidol, llefydd ymarfer a pherfformio, stiwdio ddarlledu newydd a gweithdy gwneuthurwyr.

Gan edrych ymhellach i'r dyfodol, rydyn ni'n paratoi ar gyfer Canolfan Cynhyrchu a Sgiliau Bae Caerdydd, a fydd yn cynnig mwy o ofod ymarfer a chynhyrchu a hyfforddiant yn y diwydiant i bobl greadigol Cymru, gan atgyfnerthu ein henw da fel ardal ddiwylliannol o safon fyd-eang.



Copr, lolfa arbennig ein haelodau

DIOLCH

YMDDIRIEDOLAETHAU A SEFYDLIADAU

Cyngor Celfyddydau Cymru
Llywodraeth Cymru
Llywodraeth y Deyrnas Unedig drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin
Sefydliad Garfield Weston
Sefydliad Moondance
Ymddiriedolaeth Elusennol Simon Gibson
Ymddiriedolaeth Elusennol Mary Homfray
Sefydliad Wolfson
Cwmni Anrhydeddus Lifrai Cymru

NODDWR SEFYDLU

Er cof am Syr Donald Gordon

LLYWYDD ANRHYDEDDUS

Er cof am yr Arglwydd Rowe Beddoe DL

CEFNOGAETH ARBENNIG

Er cof am David Morgan
Er cof am David Seligman OBE a Philippa Seligman
Babs Thomas ac er cof am Peter Thomas

CYLCH Y CADEIRYDD

Carol Bell
Bob a Lindsay Clark
Y Fonesig Vivien Duffield DBE
Henry Engelhardt CBE a Diane Briere de l'Isle-Engelhardt OBE
Dyfrig a Heather John
Sylvia Richards ac er cof am Clive Richards CBE KSG DL
David Stevens CBE a Heather Stevens CBE
Peter a Janet Swinburn

AELODAU PARTNER AWEN

Ms Ayesha Al-Sabah
Dean Barnard
Mary a David Beynon
Mrs Jacqueline Bird
Mrs Rosina Bridgeman
Andrea a John Bryant
Mr Robert Cross
Mrs Janet Davies
Mr Christian Du Cann
Mr P Ellis a Mrs V Wood
Russell Harris C.F. a Mrs Nicola Harris
Mr a Mrs William R Jones
Yr Athro Michael Levi
Dr a Mrs Richard Logan
Dr M L Nussbaum
Alan a Maggie Peterson
Georgina a Len Phillips
Mrs Eirlys Pritchard Jones
Julienne Damaris Rowlands
Nan Williams
Claire a Simon Wyatt

Diolch hefyd i'r holl wirfoddolwyr, aelodau Partner, Ffrind+ a Ffrind ac i'n rhoddwyr eraill am eich cefnogaeth barhaus.

PARTNER CORFFORAETHOL

Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

PARTNER GWESTY

Future Inns

PARTNER PARCIO

Parmer Cardiff Waterside

AELODAU CORFFORAETHOL

Glamorgan Brewing Co.
Howell's School Llandaff GDST
thomascarroll Group Plc
Quantum Advisory Working in Partnership with You
Arup
Sony UK Technology Centre
Giovanni's
Capital Apartments

CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED
Cymraeg gan Lywodraeth Cymru Delivered by Welsh Government

© Canolfan Mileniwm Cymru, Plas Bute, Caerdydd, CF10 5AL yganolfan.org.uk Rhif elusen gofrestredig: 1060458